# Hysbyseb Secondiad - Secondment Advert

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd / Job Title:** | Uwch Reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid – Cyfnewidfa Gwybodaeth Ieuenctid a Cynllun Hawliau Pobl Ifanc |
| **Band Cyflog / Pay Band:** | Swyddog Gweithredol Hŷn (£41,700-£49,370)<br><br>Bydd y cyfle hwn yn secondiad i Lywodraeth Cymru a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn aros ar delerau ac amodau gwasanaeth a chyflog presennol eu cyflogwr |
| **Lleoliad / Location:** | Cymru gyfan |
| **Hyd y swydd os dros dro / Duration of post if temporary:** | Cyfnod penodol am 2 flynedd |
| **Patrwm gwaith / Pattern of working** | Llawn amser<br>Ystyrir ceisiadau gan y rhai sydd am weithio'n rhan-amser neu ar sail rhannu swydd. |
| **Dyddiad cau / Closing Date:** | Hanner dydd, dydd Mercher 19 Ebrill 2023 |

**Pwrpas y swydd / Purpose of Post:**

Gwnaeth y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, oedd ar waith rhwng 2018 a 2022, 14 o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ei adroddiad terfynol – 'Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru' - ar gyfer sefydlu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid. Mae datblygu a gweithredu'r argymhellion hyn yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Bydd deiliad y swydd hon yn canolbwyntio ar ddau o argymhellion y Bwrdd Dros Dro, sef:

- dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i gomisiynu gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth i Gymru, fel rhan o gynnig digidol i bobl ifanc sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid
- dylai Llywodraeth Cymru lansio Cynllun Hawliau Pobl Ifanc i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru.

Mae'r argymhellion hyn yn estyn ymhell y tu hwnt i faes gwaith ieuenctid, ac mae angen dull trawslywodraethol er mwyn ein helpu i ddeall yn well yr hyn sydd eisoes ar y gweill, a'r hyn y gellir ei ddatblygu. Bydd disgwyl i ddeiliaid y swydd hon weithio yn agos gydag adrannau ar draws Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ystod eang o rhanddeiliaid i ddatblygu'r argymhellion hyn o gysyniadau i opsiynau, ac ymlaen o bosib i ddylunio a chomisiynu gwasanaethau. Bydd methodoleg dylunio gwasanaeth ('service design') yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith, gan sicrhau bod anghenion pobl ifanc (fel defnyddwyr) yn parhau'n ganolog i unrhyw ddatblygiad.

| |
|---|
| Bydd deiliad y swydd hon hefyd yn gwneud gwaith polisi parhaus o fewn y Gangen Ymgysylltu Ieuenctid, gan gynnwys gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid, ei Grwpiau Cyfranogiad Gweithredu a rhanddeiliaid eraill. |
| **Prif dasgau / Key Tasks:** |
| Bydd deiliad y swydd yn chwarae rhan allweddol wrth lunio a datblygu argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro mewn perthynas â dau wasanaeth - cyfnewidfa gwybodaeth ieuenctid a chynllun hawliau pobl ifanc. Bydd hyn yn cynnwys:<br>• arwain ar sgôpio gofynion y ddau wasanaeth, gan ystyried cynigion manwl y Bwrdd Dros Dro yn ogystal â barn ac anghenion rhanddeiliaid<br>• ystyried sut mae gwasanaethau tebyg wedi'u sefydlu mewn mannau eraill ledled y DU ac yn rhyngwladol er dysgu o'r rhain a mabwysiadu arfer gorau o fewn meysydd gwaith ieuenctid digidol a gwasanaethau gwybodaeth ieuenctid (gan gynnwys cyngor ac arweiniad a ddarperir gan Asiantaeth Gwybodaeth a Chwnsela Ieuenctid Ewrop - ERYICA)<br>• rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y dylunio a datblygu'r gwasanaethau yn cael ei arwain gan bobl ifanc ac yn diwallu eu hanghenion<br>• datblygu opsiynau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Weinidogion eu hystyried ar gyfer y gwasanaethau hyn, gan weithio'n agos gyda thimau ar draws Llywodraeth Cymru, y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru a thu hwnt i adnabod cyfleoedd i sefydlu partneriaethau gyda gwasanaethau presennol neu arfaethedig eraill, gyda'r nod o ddatblygu datrysiadau cyflenwol a chynaliadwy<br>• sefydlu trefniadau monitro a gwerthuso effeithiol ar gyfer unrhyw wasanaethau<br>• mynd ati i sicrhau bod datblygiad y gwasanaethau hyn yn cydblethu â datblygu argymhellion eraill y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro<br>• cefnogi gweithrediad agweddau eraill o'r rhaglen waith hon yn ôl yr angen. |

| **Gofynion Iaith Gymraeg / Welsh Language Requirements:** |
|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol. |

| **Meini Prawf Penodol i'r Swydd / Job Specific Criteria:** |
|---|
| 1. Profiad o ddatblygu a/neu gwireddu gwasanaethau digidol ar gyfer cynulleidfa benodol.<br>2. Y gallu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth gymhleth a allai wrthdaro, a'r gallu i gyflwyno'n glir ac i safon uchel ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>3. Profiad o ddatblygu perthynas effeithiol gydag ystod o randdeiliaid allanol i weithio tuag at nod cyffredin. |

| **Sut i wneud cais / How to apply:** |
|---|
| Lluniwch ddatganiad o ddiddordeb (dim mwy na 2 ochr o bapur A4) yn egluro pam yr ydych yn teimlo y byddech yn addas i'r swydd os gwelwch yn dda, gan dynnu sylw at eich profiad blaenorol; dylech hefyd gyfleu sut yr ydych yn bodloni'r tri maen prawf uchod.<br>Anfonwch eich datganiad o ddiddordeb os gwelwch yn dda at Dyfan Evans – dyfan.evans@llyw.cymru – erbyn 12pm (canol dydd) ar ddydd Mercher 19 Ebrill 2023.<br>Byddwn yn cysylltu â chi dros e-bost ynghylch canlyniad y broses sifftio ceisiadau. Os byddwch yn llwyddiannus yn y cam hwn, cewch eich gwahodd i gyfweliad rhithiol. |

| **Gwybodaeth bwysig / Important information:** |
| --- |
| Mae hwn yn secondiad tymor penodol am 2 flynedd.<br>Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn ymuno â Llywodraeth Cymru ar sail secondiad. Bydd angen ichi fod â chontract o ddwy flynedd o leiaf gyda'ch cyflogwr presennol er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio am y cyfle hwn.<br>Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Dyfan Evans – dyfan.evans@llyw.cymru |